Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw Eleri Griffiths

Cwmni/Corff Plant yng Nghymru

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Ydw. Mi fyddem ni yn croesawi gwasanaeth pwrpasol i blant a phobl ifanc yn Gymraeg. Mae gennym dystiolaeth anffurfiol fod nifer o blant o deuluoedd Cymraeg ei hiaith yn troi at raglenni Saesneg ar sianeli plant pwrpasol.

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Ydw. Mae Plant yng Nghymru o'r farn fod rhaid bod yn hynod o ofalus yngl□n â defnyddio gofod hysbysebu yng nghanol gwasanaeth darlledu i blant. Deallwn fod canllawiau gwirfoddol eisoes yn bodoli i gyfyngu ar y math o hysbysebion sydd yn cael eu dangos yn ystod oriau rhaglenni plant, ond fe hoffai Plant yng Nghymru weld S4C yn cymryd cam cadarn dros sicrhau ansawdd a phriodoledd unrhyw hysbysebion a ddangosir yn ystod yr adegau hyn. Dylid datblygu canllawiau sydd yn cynnwys

peidio atgyfnerthu syniadau ystrydebol am swyddogaethau merched a bechgyn;
peidio hysbysebu bwydydd a diodydd sydd ddim yn iach;
peidio hysbysebu teganau dros werth penodol, na fyddai o fewn cyrraedd teuluoedd tlawd.

Mi fyddai Plant yng Nghymru yn croesawi'r cyfle i drafod y mater hwn yn bellach gyda S4C.

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Mentrau Iaith Cymru

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Cytunwn gyda'r dadansoddiad o'r cynulleidfaoedd targed a gynigir gan S4C. Ymddengys yn synhwyrol fod rhaglenni plant bach yn cael eu darlledu rhwng 0600 a 1500. Serch hynny mae perygl, mewn cartrefi ble fod pob plant yn fach ac o dan 5 oed, y bydd teuluoedd yn dal i droi at y sianeli Saesneg hyd at 7pm. Gan ystyried fod llawer o bobl yn gweithio ag allan o'r t□ rhwng 8am-5pm, ni fyddai plant bach wedyn yn gallu gwylio rhaglen Gymraeg tra bo rhiant/ofalwr yn coginio swper (enghraifft y tybiwn o'r math o amser poblogaidd i bobl roi eu plant bach o flaen teledu). Croesawn y penderfyniad i gynllunio rhaglenni plant hyn a phobl ifanc ar sail eu barn hwy. Dylai marchnata trylwyr fedri goresgyn y drafferth o rannu un gofod ddarlledu rhwng dau ystod oriau. Tybiwn mai beth fydd yn hollbwysig i sicrhau fod hyn yn cael ei dderbyn yw fod y slotiau amser yn gwbl gyson pob dydd. Felly am e.e. 4pm mae plant hyn yn gwybod fod popeth ar sianel x ar eu cyfer hwy.

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Marchnata soffistigedig a chydweithio gyda mudiadau a sefydliadau ble mae plant a phobl ifanc yn mynychu. Hoffem gydnabod llwyddiannau S4C yn gwneud hyn yn barod, a gwyddwn eu bod wedi arfer a threfnu teithiau ar gyfer Plant Bach, a chydweithio gyda grwpiau cymunedol.
Efallai byddai modd trefnu mwy o gigs ar gyfer pobl ifanc fel modd o farchnata rhaglenni ar eu cyfer, ac ystyried noddi digwyddiadau tebyg i'r rheiny a gynhelir gan y sianel Radio Saesneg Radio 1.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Nid oes modd i Plant yng Nghymru ar yr adeg yma ateb y cwestiwn hwn heb ymgynghori gyda Cyngor Polisi Plant yng Nghymru ac Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru. Yn anffodus ni chafwyd cyfle i wneud hyn erbyn dyddiad cau yr ymgynghoriad hwn.

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Croesawn y datblygiad yma, ac edrychwn ymlaen i glywed canlyniadau'r ymgynghoriad.